Estyn

estyn.llyw.cymru

# Adolygiad o bolisïau ymweliadau addysgol yn y sector addysg bellach

Medi 2015



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

**Cefndir** **1**

**Prif ganfyddiadau** **2**

**Argymhellion** **4**

**Adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau colegau** **5**

Egwyddorion polisïau a gweithdrefnau ymweliadau addysgol 5
Staffio ymweliadau 6
Arweiniad a hyfforddiant ar gyfer staff 7
Rheoli amser di-fynd a llety preswyl 8
Goruchwyliaeth o bell 8
Gweithdrefnau argyfwng 9
Trefniadau yswiriant 9
Gofynion ychwanegol ar gyfer ymweliadau tramor 10
Asesu risg 10
Arweiniad ar ddefnyddio darparwyr trydydd parti 11
Trafnidiaeth 11
Cynllunio a chyfathrebu 11

**Sail y dystiolaeth** **13**

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith** **13**

## Cyflwyniad

Yn Chwefror 2015 gofynnodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i Estyn gynnal adolygiad o'r polisïau a ddefnyddir gan golegau addysg bellach ar gyfer ymweliadau addysgol. Cynhaliodd Estyn adolygiad desg o bolisïau colegau a chyfwelodd â staff colegau er mwyn deall pa mor dda y mae eu gweithdrefnau yn gweithio. O ganlyniad, nododd Estyn feysydd arfer dda yn ogystal â meysydd pryder. Gofynnodd y Gweinidog i Estyn hefyd ystyried pa un a yw colegau yn dilyn yr Arweiniad Cenedlaethol ar ymweliadau addysgol a luniwyd gan y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored a pha un a ddylai arweiniad ar wahân neu arweiniad atodol gael ei gynhyrchu ar gyfer colegau. Yn ogystal, gofynnodd y Gweinidog i Estyn nodi unrhyw fylchau neu wendidau yn y polisïau ac i wneud argymhellion ar welliannau.

Mae'r adolygiad hwn wedi'i gyfyngu i'r agweddau iechyd a diogelwch ar ymweliadau addysgol, ac nid yw'n ystyried eu gwerth addysgol, na'r agweddau ariannol neu weinyddol ar ymweliadau addysgol.

## Cefndir

Daeth y cais gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau i Estyn gynnal yr adolygiad hwn yn sgil marwolaeth dysgwr a oedd yn astudio yng Ngholeg Ystrad Mynach, yn ystod ymweliad addysgol â Barcelona yn 2011. Yn dilyn marwolaeth eu mab, cododd ei rieni ystod o bryderon ynglŷn â gweithdrefnau'r coleg ar gyfer ymweliadau addysgol a'r asesiadau risg cysylltiedig. Gwnaeth y Gweinidog ymrwymiad i rieni'r dysgwr y byddai pob coleg yng Nghymru yn cael gwybod am effaith marwolaeth eu mab ac y byddai'n cymryd camau i leihau'r risg y byddai digwyddiad o'r fath yn digwydd eto. Mae'r adolygiad hwn yn rhan o'r ymrwymiad hwnnw.

## Prif ganfyddiadau

1 Yn gyffredinol, mae gan holl golegau Cymru bolisïau, gweithdrefnau ac arweiniad priodol a pherthnasol ar gyfer ymweliadau addysgol. At ei gilydd, maent yn bodloni gofynion deddfwriaethol. Mae trefniadau cyffredinol addas gan bob coleg ar gyfer asesu lefelau risg. Er bod yr holl bolisïau yn bodloni gofynion, nid yw ychydig ohonynt yn pennu'n ddigon clir beth sydd wedi'i gynnwys ym mhob polisi neu i bwy y mae'r polisi'n gymwys. Mae'r polisïau yn amrywiol iawn ac yn unigol iawn i bob coleg. Mae bron yr holl bolisïau yn amlinellu sail resymegol a dibenion ymweliadau addysgol, gyda phwyslais cryf ar werth dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

2 Fel arfer, mae polisi coleg yn amlinellu egwyddorion y polisi ac yn rhoi trosolwg o'r cyd-destun. Mae bron pob polisi yn nodi rolau priodol arweinydd grŵp a staff eraill ar ymweliadau addysgol. Mae'r rhan fwyaf o bolisïau yn cyfeirio'n ddefnyddiol at y medrau a'r cymwyseddau y mae angen i arweinwyr grŵp a staff cysylltiedig eraill feddu arnynt.

3 Mae bron yr holl golegau yn defnyddio eu staff iechyd a diogelwch yn dda ym mhob agwedd ar gynllunio ymweliadau addysgol. Mae'r gweithwyr proffesiynol iechyd a diogelwch yn darparu arweiniad a chymorth i staff, yn ogystal â hyfforddiant i asesu risg.

4 Mae'r rhan fwyaf o bolisïau'r colegau yn cyfeirio'n dda at asesu lefelau risg a'r angen i gynllunio'n ofalus i ystyried hyn wrth gynllunio ymweliadau. Mae ychydig o bolisïau yn cyfeirio'n benodol at yr Arweiniad Cenedlaethol ar ymweliadau addysgol a luniwyd gan y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored, er mai dim ond egwyddorion bras yr arweiniad y mae bron pawb yn eu dilyn.

5 Mae gweithdrefnau cadarn gan yr holl golegau ar asesiadau risg, gydag arweiniad buddiol i gyd-fynd â nhw. Mae bron pob coleg yn mynnu bod y rhain, ynghyd â chynlluniau gweithredol, yn cael eu craffu gan reolwr neu aelod o staff sy'n gyfrifol am reoli iechyd a diogelwch.

6 Mae gofynion manwl gan bob coleg ar gyfer asesu risg yn gymesur ag angen. Mae llawer o golegau yn mynnu bod swyddogion iechyd a diogelwch yn arwain ac yn cefnogi arweinwyr grŵp wrth iddynt gynllunio asesiadau risg. Mae hwn yn arfer dda. Er mwyn lleihau biwrocratiaeth gymaint â phosibl, mae'r rhan fwyaf o golegau yn nodi'r lefel risg sydd ynghlwm wrth fathau gwahanol o weithgarwch, ac yn defnyddio systemau 'cydsyniad cyffredinol' a rheoli generig o fewn cyd-destun polisi'r coleg ar gyfer gweithgareddau sy'n gymharol syml.

7 Mae'r holl bolisïau yn amlinellu disgwyliadau'r coleg o ran sicrhau bod ymweliadau addysgol wedi'u staffio'n briodol. Mae bron pob un ohonynt yn rhagdybio mai trefnydd yr ymweliad yw'r arweinydd grŵp, ond nid yw hyn yn ddigon clir bob amser. Mae'r rhan fwyaf o bolisïau yn cyfeirio at yr angen i'r holl staff cysylltiedig a gwirfoddolwyr gael cliriad priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

8 Mae'r rhan fwyaf o bolisïau yn gwneud cyfeiriadau buddiol at y gwahaniaeth rhwng goruchwyliaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol pan fydd sefydliadau trydydd parti yn gyfrifol am ddarparu a goruchwylio gweithgareddau.

9 Mae llawer o golegau yn darparu siartiau llif a rhestri gwirio defnyddiol o'r camau y dylai arweinwyr grŵp eu cymryd wrth gynllunio a rheoli ymweliadau addysgol. Mae'r rhain yn amlinellu'r camau y mae angen i staff eu cymryd ar bob cam o'r cynllunio. Mae bron pob coleg yn cyfeirio at yr angen i arweinwyr grŵp fod yn gyfarwydd â'r arweiniad presennol ar ymweliadau addysgol. Fodd bynnag, ychydig iawn o golegau sy'n mynnu bod yr arweinydd grŵp yn llofnodi datganiad ei fod/bod wedi gwneud hyn. Mae arweiniad defnyddiol gan lawer o golegau ar yr hyfforddiant y mae ei angen ar staff cyn ymgymryd â rôl arweinydd grŵp.

10 Mae lleiafrif o golegau yn cyfeirio'n benodol at reoli a goruchwylio dysgwyr yn ystod nosweithiau ar ymweliadau preswyl. Mae'r rhan fwyaf o golegau yn mynnu bod arweinwyr grŵp yn asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â 'chyfnodau pan na fydd y dysgwyr yn ymwneud â dysgu ffurfiol' yn eu cynlluniau manwl ar gyfer yr ymweliad. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon bob amser yn darparu digon o arweiniad i arweinwyr grŵp a staff cysylltiedig i sicrhau bod y lefelau goruchwyliaeth yn ddigonol. Mae'r rhan fwyaf o golegau yn darparu canllawiau defnyddiol ar gyfer gwirio addasrwydd llety. Fodd bynnag, nid yw'r arweiniad hwn bob amser yn dweud yn ddigon pendant y dylai staff a dysgwyr gael lle yn yr un preswylfan fel arfer. Nid oes digon o arweiniad gan yr holl golegau ar rolau a chyfrifoldebau'r holl oedolion cysylltiedig sydd â chyfrifoldebau goruchwylio.

11 Dim ond lleiafrif o golegau sy'n gwneud cyfeiriadau penodol at y risgiau sy'n gysylltiedig ag yfed alcohol gan ddysgwyr neu staff yn ystod ymweliadau addysgol. Ymdrinnir â hyn yn aml yn y codau ymddygiad ar gyfer staff a dysgwyr. Mae bron yr holl golegau yn mynnu y dylai staff goruchwylio fod yn rhydd o alcohol bob amser, a hefyd unrhyw ddysgwyr o dan 18 oed. Mae gan golegau reolau amrywiol ar gyfer yfed alcohol i ddysgwyr dros 18 oed, er eu bod i gyd yn cyfeirio at god ymddygiad y coleg a chanlyniadau methu â chydymffurfio â'r cod. Nid yw pob coleg yn dweud yn glir pa gamau y bydd y coleg yn eu cymryd os bydd unrhyw ddysgwyr neu staff yn methu â chadw at y cod ymddygiad.

12 Mae gan bron yr holl golegau drefniadau da ar gyfer casglu gwybodaeth gyswllt argyfwng am bob un o'r dysgwyr a'r staff sy'n gysylltiedig ag ymweliadau addysgol wedi'u cynllunio. Mae gwybodaeth glir gan y rhan fwyaf o golegau am bwyntiau cyswllt y coleg pe bai argyfwng yn digwydd. Lle mae trefniadau argyfwng yn cael eu disgrifio, maent yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y modd y dylai arweinwyr grŵp a staff ymddwyn, gan gynnwys o ran cysylltu â chyswllt cytûn y coleg. Mewn ychydig o achosion, nid yw gweithdrefnau argyfwng y coleg yn rhoi digon o arweiniad clir ynglŷn â gwybodaeth gyswllt ar bob adeg o'r dydd a'r nos.

13 Mae'r holl golegau yn darparu cyfeiriadau buddiol at eu polisïau yswiriant a'r defnydd posibl o'r rhain i gynnwys ymweliadau addysgol. Mewn ychydig o achosion, nid ydynt yn rhoi digon o wybodaeth am beth yn union sy'n dod o dan bolisi yswiriant y coleg a pha bryd y mae angen i ddysgwyr drefnu yswiriant ychwanegol.

14 Mae pob un o'r colegau yn darparu gwybodaeth fanwl am y gofynion ychwanegol ar gyfer ymweliadau tramor. Mae bron pob coleg yn mynnu bod pennaeth y coleg yn awdurdodi unrhyw ymweliad tramor.

15 Mae'r rhan fwyaf o golegau yn darparu arweiniad buddiol ar ddefnyddio darparwyr

trydydd parti a'r camau y dylai arweinwyr grŵp eu cymryd mewn perthynas â'r rhain yn y cam cynllunio.  Nid yw ychydig o golegau yn gwneud hyn yn ddigon clir, fodd bynnag.

## Argymhellion

**Dylai colegau addysg bellach yng Nghymru adolygu eu polisïau ac arweiniad ar ymweliadau addysgol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag arfer orau. Dylent:**

A1 adolygu eu polisïau a'u harweiniad ategol ar gyfer ymweliadau addysgol er mwyn sicrhau eu bod yn amlinellu gweithdrefnau clir a syml ar gyfer cynllunio ymweliadau a bod cynlluniau ac asesiadau risg yn gymesur ag angen a lefel y risg

A2 mynnu bod arweinwyr grŵp yn meddu ar y wybodaeth, y cymhwysedd a'r profiad i drefnu ac arwain yr ymweliad, a'u bod wedi llofnodi datganiad eu bod wedi defnyddio'r arweiniad presennol wrth gynllunio'r ymweliad

A3 gwneud yn siŵr bod pob llety ar ymweliadau preswyl yn cael ei archwilio o ran addasrwydd, a bod staff goruchwylio yn aros yn yr un llety â dysgwyr

A4 mynnu, ar ymweliadau preswyl, bod trefniadau priodol ar gyfer goruchwylio amser di-fynd[1] a bod yr holl staff sydd â rôl oruchwylio yn rhydd o alcohol

A5 mynnu bob amser bod yr holl ddysgwyr a rhieni yn ymwybodol o'r angen i gydymffurfio â chodau ymddygiad y coleg ar ymddygiad a chanlyniadau peidio â gwneud hynny

A6 gwneud yn siŵr bod gan unrhyw arweinydd cynorthwyol a/neu arweinwyr gwirfoddol rolau a chyfrifoldebau a ddeellir yn glir, a bod ganddynt gliriad diweddar gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fyddant yn arwain grwpiau, sy'n cynnwys unrhyw ddysgwyr sydd naill ai o dan 18 oed neu oedolion sy'n agored i niwed

A7 darparu gwybodaeth glir i ddysgwyr a rhieni am gwmpas a chyfyngiadau eu polisïau yswiriant mewn perthynas ag ymweliadau addysgol, ac esbonio cyfrifoldebau a disgwyliadau darparwyr trydydd parti

A8 ystyried y cyngor yn yr Arweiniad Cenedlaethol ar ymweliadau addysgol a ddarparwyd gan y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored wrth adolygu eu polisïau a'u harweiniad ar ymweliadau addysgol

**Dylai'r Adran Addysg a Sgiliau:**

A9 fynnu bod yr holl golegau yn ystyried yr argymhellion hyn wrth adolygu a diweddaru eu polisïau a'u harweiniad ar ymweliadau addysgol

[1] Amser di-fynd yw unrhyw amser pan na fydd dysgwyr yn ymwneud â gweithgarwch dysgu ffurfiol

## Adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau colegau

### Egwyddorion polisïau a gweithdrefnau ymweliadau addysgol

16 Mae gan yr holl golegau addysg bellach yng Nghymru bolisïau, gweithdrefnau ac arweiniad priodol a pherthnasol yn gyffredinol ar gyfer ymweliadau addysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn pennu cyd-destun cyfreithiol y polisi o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 i sicrhau diogelwch myfyrwyr, gweithwyr ac aelodau'r cyhoedd yn ystod unrhyw ymweliad neu weithgaredd a drefnir gan y coleg. Mewn ychydig o achosion, mae polisïau'r coleg ar gyfer ymweliadau addysgol yn rhan o gyfres ehangach o bolisïau ar gyfer agweddau eraill ar reoli iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o bolisïau yn pennu cwmpas y polisi bob tro, nac i bwy y mae'n berthnasol. Er bod y polisïau hyn yn cwmpasu'r cyd-destun a'r gofynion cyfreithiol, nid ydynt yn pennu rolau a chyfrifoldebau'r llywodraethwyr, y pennaeth / prif weithredwr a swyddi cyfrifol eraill yn ddigon eglur.

17 Fel arfer, mae polisi'r coleg yn amlinellu'r egwyddorion ar gyfer cynnal ymweliad addysgol ac yn rhoi trosolwg o'r cyd-destun ar gyfer materion iechyd a diogelwch. Yn yr achosion hyn, mae arweiniad gweithredu defnyddiol yn cyd-fynd â'r polisi, yn pennu'r tasgau y mae angen i arweinwyr grŵp eu gwneud er mwyn cydymffurfio â systemau a gweithdrefnau'r coleg ar gyfer rheoli ymweliadau, a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch y coleg.

18 Mae polisïau colegau yn amrywiol iawn o ran eu cynnwys, cyflwyniad a manylion, ac maent yn unigol iawn i bob sefydliad mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu strwythurau a gweithdrefnau pob coleg unigol. Mae bron yr holl bolisïau yn amlinellu egwyddorion a dibenion ymweliadau addysgol ac yn pwysleisio gwerth ehangach dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae bron pob coleg yn mynnu bod trefnwyr ymweliadau yn darparu sail resymegol ar gyfer gwerth yr ymweliad, ynghyd â syniad o'r gost debygol cyn rhoi cymeradwyaeth gychwynnol gan reolwr coleg. Mae cynnig sylwadau ar sail resymegol addysgol ymweliadau y tu hwnt i gylch gorchwyl yr adroddiad hwn.

19 Mae bron yr holl golegau yn defnyddio'u staff iechyd a diogelwch yn dda ym mhob agwedd ar gynllunio ymweliadau. Mae gweithwyr proffesiynol iechyd a diogelwch yn darparu arweiniad a chefnogaeth i staff yn ogystal â hyfforddiant mewn asesu risg.

20 Mae'r rhan fwyaf o bolisïau colegau ac arweiniad cysylltiedig yn cyfeirio'n briodol at asesu lefel y risg a'r angen i gynllunio'n ofalus wrth ddatblygu ac ysgrifennu asesiadau risg ar gyfer yr ymweliad addysgol arfaethedig. Maent yn nodi gwahaniaethau buddiol i'r gweithdrefnau gwahanol y mae angen eu dilyn ar gyfer ymweliadau sy'n debygol o fod â lefel risg uwch. Mae ychydig o golegau yn cyfeirio'n benodol at yr Arweiniad Cenedlaethol ar ymweliadau addysgol a luniwyd gan y Panel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored, ac mae bron pob un ohonynt yn dilyn yr egwyddorion cyffredinol sydd ynghlwm wrth yr arweiniad. Mae Coleg y Cymoedd yn cyfeirio'n benodol at yr angen i arweinwyr grŵp ddefnyddio'r Arweiniad Cenedlaethol i gael gwybodaeth fanylach am gynllunio ymweliadau.

21 Mae gan bob coleg weithdrefnau cadarn ac arweiniad defnyddiol cysylltiedig ar gyfer

asesiadau risg. Mae bron pob coleg yn mynnu bod y rhain, ynghyd â chynlluniau gweithredol eraill ar gyfer ymweliadau, yn cael eu craffu ar lefel briodol gan reolwr neu aelod staff sy'n gyfrifol am sicrhau iechyd a diogelwch. Mae llawer o weithdrefnau yn cyfeirio'n fuddiol at yr angen am asesiadau risg dynamig sy'n ymateb i amgylchiadau newidiol, fel yr angen i weithredu yn dilyn argyfwng.

22 Mae'r rhan fwyaf o asesiadau risg yn rhoi ystyriaeth briodol i'r trefniadau staffio, natur y gweithgareddau i ymgymryd â nhw, natur y grŵp, a'r amgylchedd y mae'r gweithgarwch yn digwydd ynddo, yn ogystal â lleoliad a phellter yr ymweliad. Maent i gyd yn mynnu cynllunio manylach ar gyfer gweithgareddau sy'n cynnwys lefel uwch o risg, fel bod y risgiau'n cael eu lleihau.

**Staffio ymweliadau**

23 Mae'r holl bolisïau yn amlinellu'r disgwyliadau gan y coleg a'r staff o ran sicrhau bod ymweliadau addysgol yn cael eu staffio'n briodol. Er bod llawer o bolisïau yn cyfeirio at rôl, cyfrifoldebau a phriodweddau arweinydd grŵp, nid yw lleiafrif yn gwneud hynny'n ddigon clir. Mae'r polisïau sydd yn gwneud cyfeiriadau buddiol at briodweddau arweinwyr grŵp effeithiol yn cyfeirio at eu cymwyseddau a'u cyfrifoldebau o ran rheoli'r holl agweddau ar yr ymweliad. Mae'r rhan fwyaf o bolisïau, ond nid pob un ohonynt, yn cyfeirio at yr angen am gliriad diweddar gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff a gwirfoddolwyr cysylltiedig mewn perthynas â goruchwylio dysgwyr dan 18 oed a'r oedolion hynny sydd wedi'u dosbarthu fel rhai sy'n agored i niwed yn ôl gallu neu sydd â nodweddion ymddygiad hysbys.

24 Mae'r rhan fwyaf o bolisïau hefyd yn cyfeirio at rolau a chyfrifoldebau arweinwyr cynorthwyol ar ymweliadau. Mewn ychydig o achosion, mae'r polisïau yn nodi bod gweithredu fel arweinydd cynorthwyol yn ffordd briodol o hyfforddi i ymgymryd â rôl arweinydd grŵp ar ôl hynny. Mae bron yr holl bolisïau yn cyfeirio at yr angen am lefelau staffio priodol a'r angen i amrywio hyn wrth ystyried nodweddion ymddygiad hysbys y grŵp neu natur beryglus bosibl y gweithgarwch sydd wedi'i gynllunio.

25 Mae llawer o golegau yn cyfeirio'n benodol at yr angen i arweinwyr grŵp ymgynghori â swyddogion iechyd a diogelwch wrth gynllunio'r ymweliad ac yn enwedig wrth ysgrifennu asesiadau risg. Mae hwn yn arfer dda ac yn helpu sicrhau bod arweinwyr grŵp yn cael hyfforddiant ac arweiniad penodol gan weithwyr proffesiynol iechyd a diogelwch wrth gynllunio'r ymweliad addysgol.

26 Mae'r rhan fwyaf o bolisïau yn pennu gwahaniaethau buddiol rhwng goruchwyliaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol pan fydd sefydliad trydydd parti yn gyfrifol am ddarparu a goruchwylio gweithgareddau. Yn y polisïau sy'n cyfeirio at ddefnyddio sefydliadau trydydd parti, mae'r rhan fwyaf yn cyfeirio at yr angen i wirio bod trefniadau staffio priodol ar waith er mwyn sicrhau lefel staffio briodol.

27 Mewn achosion lle mae gofalwr nad yw'n aelod o staff yn mynd gyda dysgwyr ag anghenion cymorth ychwanegol ar ymweliad, mae colegau fel arfer yn sicrhau bod y risg sy'n gysylltiedig â hyn wedi'i lliniaru gan broses briodol sy'n cynnwys asesiad o'r risg.

## Arweiniad a hyfforddiant ar gyfer staff

28 Mae mwyafrif y polisïau yn cyfeirio'n glir at angen penodol am hyfforddi arweinwyr grŵp a'u cynorthwywyr. Fodd bynnag, mae bron yr holl bolisïau yn rhagdybio bod y medrau a'r cymhwysedd gan arweinwyr grŵp i gyflawni eu rôl. Weithiau, nid oes cyfeiriad penodol at y math o hyfforddiant y dylai fod yn ofynnol i arweinwyr grŵp ei gael cyn ymgymryd â rôl arweinydd grŵp, ac eithrio ymgyfarwyddo â rheoliadau a gofynion y coleg, er enghraifft wrth gynllunio ac ysgrifennu asesiadau risg.

29 Mae polisïau a gweithdrefnau yn cynnwys arweiniad gwahanol iawn ar y trefniadau i hyfforddi staff i arwain a rheoli ymweliadau addysgol. Nid yw ychydig iawn ohonynt yn cyfeirio at yr angen am hyfforddiant o gwbl, tra bod y rhan fwyaf yn darparu canllawiau a gofynion clir iawn, gan gynnwys yr angen am hyfforddiant penodol, er enghraifft, mewn gweithdrefnau cymorth cyntaf. Mae colegau eraill yn cyfeirio'n fuddiol at werth gweithredu fel arweinydd grŵp cynorthwyol o dan arweiniad arweinydd grŵp profiadol fel hyfforddiant da ac effeithiol. Mae ychydig ohonynt yn cyfeirio at yr angen am i o leiaf un aelod o'r tîm staff gael tystysgrif 'cymorth cyntaf yn y gwaith' wedi'i chymeradwyo gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, ac wedi'i awdurdodi i roi cymorth cyntaf.

30 Mae llawer o golegau yn darparu siartiau llif defnyddiol o'r camau y dylai staff eu cymryd wrth gynllunio a rheoli ymweliadau addysgol. Mae'r rhain fel arfer yn nodi'n glir y dogfennau y mae angen i staff eu cwblhau yn ystod pob cam o'r cynllunio. Mae'r rhan fwyaf o'r arweiniad hefyd yn rhoi gwybodaeth dda am bwy sy'n gyfrifol am weinyddu ymweliadau yn y coleg, lefel yr awdurdod sydd ei hangen ar gyfer cymeradwyo ymweliadau, a'r graddfeydd amser ar gyfer awdurdodi. Yn yr achosion sy'n cynnwys lefelau risg uwch, fel ymweliadau preswyl a thramor, mae'r rhan fwyaf o golegau yn mynnu cyfnod rhybudd hwy a chymeradwyaeth gan bennaeth y coleg.

31 Mae bron yr holl golegau yn mynnu bod arweinwyr grŵp yn ymgyfarwyddo â'r arweiniad cyfredol ar gyfer ymweliadau addysgol, ac i ystyried hyn wrth gynllunio'r ymweliad. Fodd bynnag, mae ychydig iawn ohonynt yn mynnu bod yr arweinydd grŵp yn llofnodi datganiad ei fod/bod wedi gwneud hyn.

32 Mewn llawer o achosion, mae colegau yn darparu arweiniad clir ar rolau a chyfrifoldebau'r holl staff sy'n gysylltiedig â chymeradwyo, arwain a gweithredu fel staff cysylltiedig cyn ac yn ystod ymweliadau addysgol. Mae'r trefniadau hyn yn adlewyrchu'r trefniadau gwahanol sydd gan golegau ar gyfer rhoi cymeradwyaeth amlinellol gychwynnol ac wedyn cymeradwyo'r asesiad risg ar gyfer yr ymweliad cyn awdurdodiad terfynol.

33 Mae gan Goleg Caerdydd a'r Fro arweiniad meddylgar mewn perthynas â'r angen am sicrwydd cymorth cyntaf. Maent yn cynghori y dylai o leiaf un goruchwyliwr sy'n mynd ar ymweliad risg uchel feddu ar dystysgrif gyfredol Cymorth Cyntaf yn y Gwaith, a bod rhaid mynd â phecyn cymorth cyntaf â stoc briodol (yn addas ar gyfer y peryglon a nodwyd) ar yr holl weithgareddau risg uchel.

34 Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn amlinellu gofynion sylfaenol cymhwysedd yn glir ar gyfer arweinwyr grŵp. Mae hyn yn cynnwys wedi gweithredu mewn rôl oruchwylio ar o leiaf dri ymweliad blaenorol a meddu ar hanes da o reoli ymddygiad dysgwyr. Maent yn cynghori y dylai aelodau staff gadw cofnod o'u profiad o arwain ymweliadau, yn enwedig mewn perthynas â gweithgareddau antur.

35 Mae llawer o bolisïau yn gwneud cyfeiriadau defnyddiol at rôl gwirfoddolwyr fel arweinwyr cynorthwyol neu oruchwylwyr grŵp. Yn yr achosion hynny, maent yn gwneud cyfeiriadau buddiol at yr angen i hyfforddi gwirfoddolwyr mewn perthynas â'u cyfrifoldebau. Mae'r polisïau yn cyfeirio at rôl cyn aelodau staff, aelodau teulu staff, athrawon dan hyfforddiant neu ffrindiau fel arweinwyr cynorthwyol. Yn yr achosion hyn, nid yw'r polisïau bob amser yn dweud yn ddigon clir mai dim ond fel arweinwyr ychwanegol y dylai unrhyw oedolion cysylltiedig fod yn bresennol, a dylent fod dan reolaeth yr un arweiniad diogelu a lefelau cyfrifoldeb ag aelodau staff.

**Rheoli amser di-fynd a llety preswyl**

36 Dim ond lleiafrif o bolisïau sy'n cyfeirio'n benodol at reoli a goruchwylio dysgwyr yn ystod nosweithiau ar weithgareddau preswyl. Er hyn, mae'r rhan fwyaf o golegau yn mynnu bod arweinwyr grŵp yn asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amser di-fynd yn eu cynlluniau manwl ar gyfer yr ymweliad. Mae'r rhan fwyaf o bolisïau colegau, fodd bynnag, yn gwneud cyfeiriadau cyffredinol at fynnu bod dysgwyr yn cadw at god ymddygiad y coleg bob amser a chanlyniadau peidio â gwneud hynny. Ar gyfer dysgwyr o dan 18 oed, mae'r rhan fwyaf o golegau yn mynnu bod rhieni yn llofnodi cytundeb sy'n sicrhau eu bod yn deall canlyniad llawn y dysgwyr yn methu â chadw at god ymddygiad y coleg. Ar ymweliadau preswyl, bydd y canlyniad yn aml yn cynnwys talu cost dychwelyd y dysgwr adref, ac yn achos dysgwyr o dan 18 oed, cost staff i fynd gyda'r dysgwr.

37 Mae llawer o asesiadau risg ar gyfer ymweliadau preswyl yn gofyn am wybodaeth fanwl ar gyfer rheoli a goruchwylio dysgwyr trwy gydol y dydd a'r nos. Mae'r rhain yn nodi trefniadau staff 'oddi ar ddyletswydd' a'r trefniadau ar gyfer goruchwylio mewn llety preswyl. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio (ymlaen llaw lle bo'n ymarferol) addasrwydd a diogelwch llety ar loriau gwaelod, a chynefindra holl aelodau'r grŵp â gweithdrefnau argyfwng. Dim ond ychydig o bolisïau a gweithdrefnau sy'n dweud yn benodol y dylai staff ac oedolion eraill mewn rôl oruchwylio gael lle yn yr un man preswyl â'r dysgwyr.

38 Mae lleiafrif o bolisïau yn gwneud cyfeiriad penodol at risgiau camddefnyddio alcohol neu gyffuriau, yn enwedig yn ystod amser di-fynd. Er y cyfeirir mewn ychydig o achosion at gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol mewn codau ymddygiad colegau ar gyfer staff a dysgwyr, yn aml ni chyfeirir ato'n benodol naill ai ym mholisi'r coleg nac yn asesiadau risg gweithgareddau preswyl. Mae lleiafrif o golegau yn dweud yn bendant na ddylai dysgwyr a staff yfed unrhyw alcohol ar unrhyw adeg (bod 'yn rhydd o alcohol') yn ystod ymweliad addysgol yn eu polisïau. Mae llawer o golegau yn dweud yn glir yn eu hasesiadau risg y dylai pob aelod o staff goruchwylio a dysgwyr o dan 18 oed fod yn rhydd o alcohol. Mae rhai eraill yn dweud y dylai oedolion goruchwylio fod yn rhydd o alcohol a chyffuriau, ond nid ydynt yn cyfeirio o gwbl at ddysgwyr. Fodd bynnag, mae bron yr holl golegau yn mynnu bod dysgwyr yn cadw at god ymddygiad y coleg ar yfed alcohol a chymryd cyffuriau, ac maent yn rhoi arweiniad clir ar ganlyniadau methu â gwneud hynny.

**Goruchwyliaeth o bell**

39 Mae polisïau tua hanner y colegau yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am 'oruchwyliaeth o bell', lle mae dysgwyr o dan oruchwyliaeth uniongyrchol darparwr trydydd parti neu'n ymgymryd â gweithgaredd lle nad ydynt dan oruchwyliaeth

uniongyrchol, fel gweithio mewn grwpiau ar dasgau wedi'u gosod gan staff y coleg ar alldeithiau.  Yn gyffredinol, mae'r colegau sy'n cyfeirio at oruchwyliaeth o bell yn darparu arweiniad da ar sut dylai arweinwyr grŵp gynllunio'r cyfryw weithgareddau er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn gwybod beth a ddisgwylir ganddynt bob amser, ac mae ganddynt y modd i gysylltu ag un o'r arweinwyr grŵp os oes angen.

**Gweithdrefnau argyfwng**

40 Mae gan bron pob coleg drefniadau da ar gyfer casglu gwybodaeth gyswllt argyfwng am yr holl ddysgwyr a staff sy'n gysylltiedig ag ymweliad addysgol cynlluniedig.  Ym mhob achos bron, nid yw dysgwyr yn cael cymryd rhan mewn ymweliadau oni bai eu bod wedi darparu'r wybodaeth hon cyn bod yr ymweliad yn cael ei gynnal.

41 Mae Coleg Sir Gâr yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am sut i gofrestru gyda gwasanaethau brys drwy SMS.  Ar ôl cofrestru, mae staff wedyn yn gallu anfon negeseuon testun at y gwasanaethau brys pan nad oes unrhyw signal ffôn symudol yn y lleoliad.

42 Mae gwybodaeth glir gan y rhan fwyaf o golegau am bwyntiau cyswllt y coleg pe bai argyfwng yn digwydd.  Yn y rhan fwyaf o achosion, amlinellir hyn fel cynllun gweithredu argyfwng 24-awr.  Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon bob amser yn darparu ar gyfer pwynt cyswllt 24 awr pe bai argyfwng yn digwydd gan fod llawer ohonynt yn gysylltiadau yn ystod y dydd o fewn y coleg yn ystod yr wythnos weithio, neu uwch reolwr ar benwythnos.

43 Mae trefniadau clir gan y rhan fwyaf o golegau ar gyfer darparu cymorth cyntaf neu gyswllt â'r gwasanaethau brys, pe bai rhywbeth yn digwydd.  Lle mae trefniadau argyfwng yn cael eu disgrifio, maent i gyd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am sut dylai arweinwyr grŵp a staff ymddwyn, gan gynnwys cyfarwyddiadau clir ar gyfer cysylltu â chyswllt enwebedig a chyngor cyfreithiol y coleg.  Mae diagramau llif defnyddiol gan ychydig o golegau ar gyfer beth i'w wneud pan fydd pethau'n mynd o le.

**Trefniadau yswiriant**

44 Mae'r holl golegau yn cyfeirio'n ddefnyddiol at eu polisïau yswiriant a'r defnydd posibl o'r rhain ar gyfer ymweliadau addysgol.  Fodd bynnag, nid yw'r holl bolisïau yswiriant a ddelir gan golegau yn darparu sicrwydd yswiriant ar gyfer pob sefyllfa, yn enwedig mewn perthynas ag yswirio am golled neu ddifrod i eiddo personol.  Mewn ychydig o achosion, mae'r arweiniad yn y polisïau yn dweud yn union beth mae polisi'r coleg yn ei gynnwys a'r camau y mae angen eu cymryd gan yr arweinydd grŵp i sicrhau cydymffurfio â thelerau'r polisi yswiriant, er enghraifft mewn perthynas â datgelu cyflyrau meddygol sy'n bodoli eisoes.  Mae ychydig o golegau yn mynnu bod dysgwyr sy'n cyfranogi yn cael awdurdodiad 'ffit i gyfranogi / deithio' gan eu meddyg teulu.  Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn mynnu bod ei ymgynghorwyr iechyd myfyrwyr yn adolygu cyflyrau meddygol neu anableddau'r holl ddysgwyr, ac yn hysbysu'r arweinydd grŵp am y mesurau rheoli priodol y mae angen eu cymryd.  Mae'r ymgynghorwyr iechyd yn cadarnhau'n electronig fod cyflyrau iechyd yr holl ddysgwyr wedi'u hadolygu ar gyfer pob ymweliad cynlluniedig, ac yn cynorthwyo arweinwyr grŵp wrth gynnal asesiadau risg unigol ar gyfer y gweithgaredd sydd wedi'i gynllunio.

45 Mae ychydig o golegau yn dweud yn glir nad yw yswiriant y coleg yn darparu ar gyfer rhai gweithgareddau peryglus. Er enghraifft, pan mai'r Weinyddiaeth Amddiffyn yw'r trydydd parti yn darparu cwrs hyfforddi dan oruchwyliaeth, mae'r Weinyddiaeth yn datgan yn glir nad oes ganddi bolisi yswiriant o unrhyw fath ac mae'n cynghori defnyddwyr ei chyrsiau hyfforddi am y camau y mae angen iddynt eu cymryd ynglŷn ag yswiriant yn erbyn risg bersonol. Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar y sicrwydd yswiriant a ddarperir gan y coleg.

**Gofynion ychwanegol ar gyfer ymweliadau tramor**

46 Mae llawer o'r polisïau a'u harweiniad cysylltiedig yn rhoi gwybodaeth fanwl am y wybodaeth ychwanegol a'r lefelau risg sydd ynghlwm wrth ymweliadau y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Pan gaiff y wybodaeth hon ei rhoi, mae o ansawdd da yn gyffredinol ac yn darparu gwybodaeth eglur i arweinwyr grŵp am y camau ychwanegol y dylent eu cymryd cyn yr ymweliad er mwyn lleihau'r risg. Mae bron pob coleg yn mynnu bod y pennaeth yn cymryd cyfrifoldeb am gymeradwyo unrhyw ymweliadau tramor yn derfynol.

47 Mae Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am y camau i'w cymryd wrth gynllunio ymweliadau tramor. Mae'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am fanteision a chyfyngiadau'r Cerdyn Yswiriant Iechyd Ewropeaidd (EHIC) yn ogystal â sut i gael cyngor iechyd diweddar a rhifau cyswllt llysgenadaethau ac is-genhadon Prydeinig. Mae'r coleg hefyd yn pwysleisio'r angen am i'r arweinydd grŵp gael mynediad i gopïau o wybodaeth basbort yr holl gyfranogwyr i'w defnyddio mewn sefyllfa argyfwng. Mae'r coleg yn mynnu bod gan bob arweinydd grŵp ffôn symudol wedi'i ddarparu gan y coleg sy'n galluogi gwneud galwadau rhyngwladol.

**Asesu risg**

48 Mae'r holl golegau yn mynnu bod arweinwyr grŵp, fel rhan o'u cynllunio, yn asesu'r risgiau a'r peryglon a allai ddigwydd, yn nodi'r lefel risg, ac yn datgan y camau a gynlluniwyd i reoli'r risg. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer asesu risgiau fel arfer yn drwyadl, yn fanwl ac wedi'u hategu gan arweiniad defnyddiol. Mae'r rhan fwyaf o golegau yn mynnu bod swyddog iechyd a diogelwch yn adolygu ac yn cymeradwyo'r asesiad risg cyn bod yr ymweliad yn cael ei awdurdodi gan uwch reolwr yn y coleg. Mae llawer o bolisïau yn datgan na all unrhyw ymweliadau i ffwrdd o'r safle gael eu cynnal heb awdurdodiad swyddogol ac y bydd methiant i ddilyn gweithdrefnau yn arwain at gamau disgyblu. Mewn llawer o achosion, mae'r swyddog iechyd a diogelwch hefyd yn darparu cymorth ac arweiniad i'r arweinydd grŵp wrth lunio'r asesiad risg manwl.

49 Mae Coleg Cambria yn darparu arweiniad manwl ar gymeradwyo ymweliadau a'r asesiadau risg cysylltiedig yn ei lawlyfr i arweinwyr grŵp. Rhaid i'r holl asesiadau risg gael eu hawdurdodi gan reolwr perthnasol gyda chymorth gan weithiwr proffesiynol iechyd a diogelwch ar lefel briodol. Mae'r gweithiwyr proffesiynol iechyd a diogelwch yn darparu cymorth i'r arweinydd grŵp wrth gynllunio'r ymweliad a chwblhau'r asesiad risg. Mae'r asesiad risg yn cwmpasu pedair prif agwedd: y grŵp, y daith, y gweithgaredd a'r llety. Mae'r arweiniad yn darparu gwybodaeth fanwl am yr holl agweddau y mae angen i'r arweinydd grŵp eu hystyried wrth bennu lefel y risg. Lle mae risgiau yn annerbyniol, yna mae'n rhaid i'r arweinydd grŵp nodi manylion y mesurau rheoli sydd i'w defnyddio i ddileu neu leihau lefel y risg.

50 Er mwyn lleihau gofynion biwrocratig, mae'r rhan fwyaf o golegau yn nodi'r lefel risg sydd ynghlwm wrth fathau gwahanol o weithgarwch ac yn defnyddio systemau 'cydsyniad cyffredinol' a rheoli generig o fewn cyd-destun polisi'r coleg ar gyfer gweithgareddau sy'n gymharol syml. Mae angen i asesiadau risg generig o'r fath gynnwys arweiniad clir ar yr hyn a gwmpesir ganddynt a pha gamau y mae angen eu cymryd pe bai argyfwng yn codi.

51 Mae colegau sy'n mabwysiadu'r dull hwn yn cydnabod, pan fydd lefel y risg yn uwch na'r arfer, fod angen cynnal asesiad risg manylach. Mae'r ffactorau amrywiol sy'n pennu lefel y risg yn cynnwys profiad, cymhwysedd a medrau staff, natur y gweithgaredd sydd wedi'i gynllunio, profiad blaenorol a natur y dysgwyr, ffactorau amgylcheddol, a lleoliad/pellter y gweithgaredd sydd wedi'i gynllunio. Mae'r colegau yn dweud yn beth yw'r amgylchiadau lle mae 'cydsyniad cyffredinol' yn gymwys a'r amgylchiad lle mae angen cynnal asesiad risg unigol a manwl.

**Arweiniad ar ddefnyddio darparwyr trydydd parti**

52 Mae ychydig o golegau yn rhoi arweiniad defnyddiol ar werth defnyddio darparwyr trydydd parti i gynnal a goruchwylio gweithgareddau dysgwyr. Gall y trydydd partïon gynnwys canolfannau gweithgareddau awyr agored ac mae rhai o'r rhain yn dal trwyddedau ar gyfer y gweithgareddau y maent yn eu cynnig. Mae darparwyr eraill, nad yw'n ofynnol iddynt ddal trwyddedau, yn dod o dan ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch yn unig. Mae'r ychydig o golegau sydd yn darparu arweiniad ar ddefnyddio trydydd partïon yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am y camau y dylai arweinwyr grŵp eu cymryd, cyn yr ymweliad, i sicrhau bod trefniadau addas gan y trydydd parti ar gyfer rheoli risg.

53 Mae gan Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot arweiniad manwl ar ddefnyddio darparwyr trydydd parti. Mae'r arweinad yn gwahaniaethu rhwng darparwyr trwyddedig a didrwydded. Caiff arweinwyr grŵp eu cynghori i wirio bod gan y darparwr trydydd parti staff addas a hyfforddedig, diogelwch priodol ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Mae'r arweiniad hefyd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am rôl awdurdodau trwyddedu a systemau eraill achredu canolfannau.

**Trafnidiaeth**

54 Mae bron pob ymweliad addysgol yn golygu defnyddio rhyw fath o drafnidiaeth fecanyddol. Mae arweiniad da gan y rhan fwyaf o golegau ar ddefnyddio trafnidiaeth a ddarperir gan y coleg, y gofynion ar gyfer awdurdodi staff i yrru trafnidiaeth coleg a defnyddio darparwyr trafnidiaeth allanol. Fel arfer, mae colegau yn mynnu defnyddio cwmnïau allanol y mae gan y coleg gontract â hwy a'r trefniadau gweinyddol ar gyfer trefnu trafnidiaeth. Mewn ychydig o achosion, mae'r arweiniad yn ymestyn i'r gofynion i ddefnyddio tacograffau i sicrhau bod pob gyrrwr yn cydymffurfio ag arfer ddiogel.

**Cynllunio a chyfathrebu**

55 Mae gan bron pob coleg weithdrefnau manwl ar gyfer sicrhau bod pob parti yn cael gwybodaeth lawn am yr ymweliad sydd wedi'i gynllunio, gan gynnwys y coleg, staff cyfrannog, dysgwyr a rhieni/gwarcheidwaid. Mae'r wybodaeth hon a ddarperir fel arfer yn cynnwys teithlen yr ymweliad, rhifau ffôn cyswllt y coleg a'r llety, rhestr o staff

ac oedolion goruchwylio eraill, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol ar gyfer ymweliadau tramor.  Fel arfer, mae pob dysgwr yn cael ffurflen ganiatâd y mae'n rhaid iddi gael ei llofnodi a'i chytuno gan rieni ar gyfer dysgwyr o dan 18 oed, a chan y dysgwr os yw'n hŷn.

56 Mae gan Goleg Sir Benfro ystod ddefnyddiol iawn o restri gwirio cynllunio ar gyfer tasgau y mae angen i arweinwyr grŵp gyfeirio atynt ym mhob cam o broses cynllunio'r ymweliad.  Mae'r rhain yn cynnwys diagramau llif defnyddiol yn ogystal â threfniadau adolygu ar ôl yr ymweliad, yn cynnwys adroddiadau i lywodraethwyr ac unrhyw newidiadau ar argymhellir i'r system gynllunio.

## Sail y dystiolaeth

Aeth Estyn ati i adolygu polisïau ymweliadau addysgol presennol yr holl golegau addysg bellach yng Nghymru sy’n darparu addysg amser llawn. Hefyd, bu Estyn yn adolygu sampl o asesiadau risg ar gyfer ymweliadau tramor a phreswyl a gynhaliwyd yn ddiweddar gan bob un o’r colegau.

Yn ogystal, cynhaliwyd cyfweliadau ffôn gydag ystod o benaethiaid a staff eraill sy’n gyfrifol am iechyd a diogelwch mewn ystod gynrychioliadol o golegau.

**Esboniad o’r geiriau a’r ymadroddion a ddefnyddir i ddisgrifio ein harfarniadau**

Y geiriau a’r ymadroddion a ddefnyddir yn y golofn chwith isod yw’r rhai yr ydym yn eu defnyddio i ddisgrifio ein harfarniadau. Mae’r ymadroddion yn y golofn dde yn esboniadau mwy manwl.

| | |
|---|---|
| bron bob un | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | 90% neu fwy |
| llawer | 70% neu fwy |
| mwyafrif | dros 60% |
| hanner neu tua hanner | yn agos at 50% |
| lleiafrif | o dan 40% |
| ychydig | o dan 20% |
| ychydig iawn | llai na 10% |

## Awdur yr adroddiad cylch gwaith

Eleanor Davies